

CYWYDD o GOFFADWRIAETH,

Ar Farwolaeth y Parchedig

MR. WILLIAM DAVIES,

O GASTELL-NEDD.

A FU FARW Y 17 o AWST, 1787;

Wedi bod yn pregethu yr EFENGYL ddeg
ar ugain o Flynyddau.

HYD A RHAI

O GOFFADWRIAETH

YMWYLLEW WILLIAMS

O GAER-WEN,

Ymhlywyd PENBRE, yn agos
I BONT RHYS SPUDWR.

Gan PETER WILLIAMS.

CAERFYRDDIN,

Argraphwyd gan I. Ross, yn Heol Awst.

H C V W Y D D,
AR FARWOLAETH Y PARCHEDIG
WILLIAM DAVIES.

I.

OGASTELL-NEDD ces newydd chwerw,
Mae William Davies wedi marw !

Och ! pa'm y galwyd ef o'r winllan
A'r Gweithwyr ffyddlon yn rhy fychan ?

2. Mae ffordd Duw yn uwch na'n llwybrau,
Efe a wyr yr hyn sydd oreu,
Paham y synnwn am ei symmyd ?
Nid y'nt ymma ond dros ennyd.

3. Et tynnu dynion donniog ymaith,
Mae chwaneg etto ynghroth Ragluniaeth
Ac fe esyd Duw yn ddiwall,
Eu Gogoniant ar un arall !

4. Dysgwn weithio heb ein hanu
Iaith i alw i gael y geiniog:
Iaith iaeth at ei waith yn olaf
A ligwyd, gaiff y geinlog gyntaf.

5. Plant Jacob drigent gynt mewn bythyn
I goffau eu pererindod;
Ond'r oedd pawb a'u palmwydd, cofnws
Congerwyd Angan, pa'm yr ofnwn ?

6. 'Ry'n ni'n cwennych pabell eurad,
I barhau tro' Haul a Lleuad;
Duw sylw babell, yma, i'w mudo,
Welthiau i Hebron, weithiau i Silo.

7. Fry mae'r babell yn y Nefoedd,
Na symmydur yn oes oesoedd,
Ac na thorir un o'i rhaffau,
Ac na syflir hoel o'i muriau.

8. Pabell Moses, b'le mae'r awr hon ?
Lle mae Crist yn gwisgo'r goron !
B'le mae'r orchudd, b'le mae'r llenau ?
Lle gadawodd E'r llieiniau !

9. Sôn



9. Sôn yr y'm am ryw reolau,
refn eglwyfig, plant a thadau;
 Ond, boed yn ein henaid awen,
 Fyn'd yn *drefnus* trwy'r Iorddonen.

10. Yry'm yn cwyno'n drwm am golli,
 Doniau *Davies* o'r eglwyfi;
 Dyfgwn ganddo fyw'n griftnogol,
 Da yw dylyn'siamplau'r duwiol.

11. Dyn diffeius oedd *Davies* wirion,
 Onid ydöedd yn rhy dirion;
 Diodde i'r ieuengestid awdurdodi,
 He dylafai 'fe flaenor!

12. Nid oedd *Davies* yn dueddol,
 Fe dderbyniai bob dyn duwiol;
 Boed eu doniau'n brin neu'n helaeth,
 Fe gyd-ddaigai â'u hathrawiaeth.

13. Pymthir cyfaill gâr mor gywir,
 Yn y lloedd a'r holl Fynydd-dir?
 Fe gellir do letty noswaith,
 Gweler noswaith, groesaw ganwaith,
 Lle gwaeddi *Paul*, *Apolos*,
 Caru'r brodir pell ac agos;
 Yn lle'r fodrwy aur a'r gwychder,
 Caru Delw Crist bob amser.

15. Pwy ddaw bellach i bregethu,
 Draw yngappel Llangyfwlchu?
 Ni ad yr Arglwydd hwy'n ymddifaid,
 Fe ddiwalla Duw ei ddefaid.

16. Pregethodd *Davies* yno'n wresog,
 Er na cha'dd e'fawr o gyflog;
 Nid y gwyr â'r gyflog fwyaf,
 Yw'r pregethwyr godidoccaf.

17. Byth ni pheidiai â phregethu,
 O Forganwg i Gaergybi;
 Er ei droi o'r Eglwys wladol,
 Fe bregethodd fel Apostol.

18. Beth dal Eglwys neu Bersoniaeth,
Dwy, neu dair, o rhai'n ar unwaith;

Ac Eneidiau'r praid yn dyddfu,
Eisiau bara o'r Nef i'w porthi.

19. Beth dal bwytta mewn esmwythder,
A phraig Iesu'n dioddef prinder?
Y Blaidd yn myn'd â'r 'sglyfaeth ganddo,
Eisiau Bugail i fugeilio!

20. Byddwn ronyn bach yn ddiwyd,
Fel bu Davies, er pan alwyd;
Er cael croes, ni gawn y Goron,
Gwyn ei byd y gweision ffyddlon.

21. Tithau, ei Wraig, er it' ei golli,
Cofia byth mae byw yw'r Iesu;
Mae Duw yn gwarchod dros y gweddwon,
Ti gei 'th gyfraid ganddo'n gyffon.

22. Na thro' th wyneb, dan un wasgi
Tua'r Aiph, neu wlad Assyria;
Can's Duw Abraham yw dy Geidwad,
Rho dy ymddiried ynddo'n wastad!

23. Dewis Ruth fo'th ddewis dithau,
Duw a'i bobl, Grifft a'i Radau;
Cais ei nabod, cais ei garu,
Cei ar fyr fyn'd atto i ganu.

D I W E D D.

C Y W Y D D

A b c d e

C Y W Y D D,
AR FARWOLAETH
J A N E W I L L I A M S.

I.

O CH i fi! ces wel'd ysywaeth
Y peth y gwn im' glywed ganwaith;
Na dderbyn angau wyneb un dyn,
Hen nac ieuangc, gwraig na phlentyn.

2. Y Wraig o Gaer-wen ymadawodd!
Er mawr alar i laweroedd:
Yr oedd ei Thŷ yn Deml hyfryd,
I bregethu gair y Bywyd.

3. Hi roi'n llawen fwyd a diod,
Ebran hefyd i'r asynod:
Tra b'ai 'fengyl Crist yn swnio,
Hi wrandawai'n ystig arno.

4. Yr oedd ei buchedd yn grifn'ogol,
A'i thynfa tua'r Ganaan nefol;
Gweddw ieuangc, sobr, diwair,
Nas gallai Enhib ro'i iddi an-air.

5. 'Roedd ganddi bump o dylwyth gweision,
Dwy o Ferched, tri o Feibion;
A'i gwillys oedd, a'i gweddi beunydd,
Gael iddynt enedigaeth newydd.

6. A bod ei phlant yn eiddo'r Arglwydd,
Mewn cyfammod yn dragwydd;
Can's mae gras yn well cynhysgaeth,
Na gwlad India'n etifeddiaeth.

7. Yr oedd hi'n fuddiol i'r gym'dogaeth,
Yn dymuno eu Iechawdwriath;
Pwy wna'r fath gymmwynas iddynt?
Duu o'i Râs fo'n Fugail arnynt.

8. Ofnais na chawn wel'd ei chyminar,
Yn holl ardal Lletty bawddgar;

P. 21

Gheykem

Pan y torrwyd cangen *wyw-lan*,
A gwneud gwagle yn y Winllan.

9. Ond rhag iddi ymdrythyllu,
Neu ymrwyistro trwy drafferthu ;
Fe symydwyd hon i Sion,
Uwchlaw cyrrhaedd pob gelynion.

10. O ddyfnderoedd maith rhagluniaeth !
Dwyn y rhai defnyddiol ymmaith ;
Fel y gwelai pawb ym mhob man,
Fod Duw'n gweithio'r gwaith ei hunan.

11. A phan welid, a'i gyffessu,
Byddai'r clod i gyd i'r Iesu !
Darfu'r duwiol ! trist yw'r chwedl ;
Etto llwyddo mae'r Efengyl.

12. Fe 'i difeddanwyd hi o'i phriod,
Can's fe 'i boddwyd ar y tywod ;
Wrth geisio achub Cwch rhag foddi:
Gwae ni dd'od smuglyn i wlad cymru !

13. Ond ei chwegrwn sydd wr tirion,
Fe ymgeledda efe ei Wyrion ;
Ac os na chant dad yn un man,
Fe fydd Duw yn Dad ei hunan.

14. Ac fe rydd i *Gaer-aven* gyflur,
Trwy ryw rai a ddaw o bryflur,
I agr drws i wir roesawi,
Efengyl bur yr Arglwydd Iesu.

15. Do, mi glywais er ys dyddiau,
Fod y deiliad ddaeth i'r un lle,
Gyd à Zel, yn derbyn crefydd !
Clod i'r Arglwydd am y newydd.

16. Yn ei chlod y ca'dd hi ymadael,
Ac heb brofi fawr o ryfel ;
Yn ddeuddeng miwydd ar hugain oedran,
Galwyd Jane i'r lân-deg Ganaan.

17. Gweddwon ieuatinge, cymrwch rybydd,
Pan cyfrifoch hi'n ganol-ddydd,

Ban bo'ch ysgafn, a 'sgafala,
Eich Haul, ysgafydd, a fachluda.

18. Rhydd i'r Garddwr gasglu blodau,
Rhydd i'r Iesu ddwyn cneidiau;
O bob gradd, ac o bob oedran,
O ddrwg y byd i'w nefol Drigfan.

19. Ymwrolwn, byddwn ddiwyd,
Y mae genym wir addewyd;
Rhed y gair ar led yn helaeth,
Gwel bob gwlad yr Iachawdwriaeth,

20. Bydd cynnydd Crefydd etto ynglymru,
Mae'r Efengyl yn ymdaenu;
A holl Wynedd a'r Deheudir,
O wybodaeth Duw a lenwir.

21. Er bod rhai mewn anwybodaeth,
Yn gwrrthod Crist a'i Iachawdwriaeth;
Daw Yspryd Crist i'w hadgenhedlu,
Gwrando geiriau Duw a'i garu.

D I W E D D.

H Y M N

A E. i għid u am dy gammo, Arglywydd da, &c.

Aun guried mon iħagħor, Arglywydd da,

U minn ħażżeen biex li im-ċeraist,

għewi amher kien a m' gelwa fu,

I'x-xaqqa i'm cyneġi/għad-dalli, Arglywydd da, &c.

I'x-Għorja u kien a m' ingħajnej, Arglywydd da.

Rwy' i nawr yn dekkru canfod, Arglywydd da, &c.

Għadernid dy Gyfammod, Arglywydd da,

u ne i gyd yn-ejja tħixx,

A hyiex id-Addewydlon,

I-nsejjur i'r-ffoċċoljon, Arglywydd da, &c.

I-nsejjur i-n-tieqqieha Sion, Arglywydd da.

Wek' bellhekk u kien idher id-daf, Arglywydd da,

I'x-Fraġġi, li-Nħad fydd luu, Arglywydd da,

Għadher i-ngridda,

u ne iċċi, Garied canaf,

Ir-dekku di y galwa, Arglywydd da, Arglywydd da,

Pan ddil cyfynder arna, Arglywydd da.

UN A R A L L.

Darfydded sön am tħidha, darfydded sön am tħalli,

Darfydded sön am gyfoeth y cedyrh mawt eu tħix,

Darfydded sön am Leuad, darfydded sön am filu,

Darfydded sön am bob peth, ond headdiant Adxa rjal.

F E R F Y N

